**<u>Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 21 Awst 2018 yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug.</u>**

**<u>Presennol</u>:** Y Cynghorwyr Haf Williams (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Beca Brown, Richard Robinson, Martin Jones, Cemlyn Jones, Meirwen Lloyd

**<u>Ymddiheuriadau</u>:** Y Cynghorwyr Rhys Parry, Alan Pritchard, Llywelyn Williams, Hefin Jones, Phil Roberts, Clifford Williams

**<u>Clerc</u>:** Meirion Jones

**227. Croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchwyd i'r aelodau am eu presenoldeb. Estynnwyd cydymdeimlad a rhai sydd wedi cael profedigaethau yn yr ardal yn ddiweddar

**228. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod.

**229. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**230. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf 2018**

Cadarnhawyd cofnodion mis Gorffennaf yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**231. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

Dim

**232. I dderbyn cyflwyniad gan Daniel Griffith, Swyddog Gwynedd i Cadw Cymru'n Daclus.**

Derbyniwyd cyflwyniad gan Daniel Griffith o fudiad Cadw Cymru'n Daclus ar sut gallai'r mudiad helpu'r Cyngor Cymuned gyda gwahanol ymgyrchoedd.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a diolchwyd i Daniel am ddod i'r Cyngor a mawr obeithir y gellir cydweithio yn y dyfodol

**233.** **I ystyried y cam nesaf yn yr ymgyrch i ostwng y cyflymder 40 m.y.a. i 30 m.y.a. yn dilyn penderfyniad Cyngor Gwynedd i wrthod i cais.**

Adroddwyd fod y Cyngor wedi bod mewn cysylltiad a Chyngor Gwynedd nifer o weithiau i geisio gostwng y cyflymder o 40 m.y.a. i 30 m.y.a. ar y ffordd allan o Llanrug tuag at Caernarfon. Yn anffodus nid yw Cyngor Gwynedd yn fodlon a hyn ac o'r oherwydd yn gwrthod cais y Cyngor Cymuned. Gofynnir i'r aelodau benderfynu ar pa gamau dylid eu cymryd yn sgil y penderfyniad yma.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd i ofyn os buasai swyddog o'r adran yn dod gerbron y Cyngor i egluro'r drefn gan roi rhesymau pam na ellir ei ostwng.

**234.** **I dderbyn diweddariad ar ein cais i gofrestru 4 llwybr cyhoeddus**

Adroddwyd fod cais wedi mynd i Gyngor Gwynedd i gofrestru 4 llwybr ers dros flwyddyn bellach ac yr unig ymateb mae'r Cyngor Cymuned wedi ei dderbyn ydi fod yr adran yn brysur iawn. Gofynnir i'r Cyngor benderfynu ar y cam nesaf i'w gymryd.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a'r adran unwaith yn rhagor ac i gysylltu a'r Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd i leisio anfodlonrwydd ar yr oedi.

**235.** **I benderfynu ar y cam nesaf gyda clwb ieuenctid ac i apwyntio staff.**

Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd angen gwybod beth yn union mae'r Cyngor Cymuned yn ei chwilio amdano oddi fewn i drefniadau sefydlu'r clwb ac fod cais am arian i'r gronfa pontio angen ei wneud am ddwy noson yr wythnos.

**Penderfynwyd:** Derbyn datganiad a baratowyd gan y Clerc ac i hysbysu Cyngor Gwynedd o ofynion y Cyngor.

**236.** **I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Nid oedd y cynrychiolydd yn bresennol.

**237.** **I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

Nid oedd cynrychiolydd yn bresennol.

**238.** **I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Nid oedd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones yn bresennol

**239. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Dim adroddiad oherwydd nid yw Cyngor Gwynedd yn eistedd yn ystod mis Awst.

**240. I ystyried unrhyw gynigion ar gyfer rhannu arian elusen ‘Llanrug Poor House’.**

Trafodwyd nifer o opsiynau ar sut gellir dosbarthu’r arian ac argymhellir gwario’r arian ac yna cau’r elusen i lawr.

**Penderfynwyd:** Y Cynghorydd Goronwy Hughes drefnu cyfarfod a Prifathrawes yr Ysgol Gynradd ac ei gwahodd i un o gyfarfodydd y Cyngor.

**241. I dderbyn adroddiad Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 15fed o Awst 2018.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes, Cadeirydd y pwyllgor Cyllid fod adolygiad o’r gyllideb wedi ei wneud er galluogi gwariant gael ei wneud ar lwybrau’r fynwent. Yn sgil yr adolygiad yma, roedd yn bosib cynyddu’r gyllideb ar gyfer y fynwent i alluogi’r gwaith ar y llwybrau gael ei wneud.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth a cytunwyd i addasu’r gyllideb fel gall gwaith ar lwybrau’r fynwent ei wneud.

**242. I dderbyn dyfynbris am wneud y gwaith ar lwybrau’r fynwent ac i gymeradwyo’r gwaith.**

Adroddwyd gan y Clerc fod 3 dyfynbris wedi ei dderbyn am wneud gwaith o lefelu a tar macio llwybrau oddi fewn i’r fynwent ac bu i’r Clerc a’r Cynghorydd Richard Robinson gyfarfod y tri cwmni ar y safle.

**Penderfynwyd:** Derbyn y dyfynbris isaf am wneud y gwaith ac awdurdodi’r Clerc i gysylltu a’r cwmni i’w hysbysu o hyn. Nodwyd cyn cychwyn y gwaith, fod angen chwynladdwr ar y llwybrau ac fod Mr Wyn Lewis, sydd yn torri gwair y fynwent eisoes wedi derbyn y gwaith yma.

**243. I gychwyn ymgyrch i bwrcasu diffibriliwr**

Adroddwyd fod yr eitem yma wedi bod ar yr agenda ers amser bellach ac fod dim penderfyniad yn cael ei wneud. Nodwyd pwysigrwydd cael diffibriliwr yn yr ardal.

**Penderfynwyd:**

- Cychwyn ymgyrch gan y Cyngor Cymuned i godi arian tuag at yr apêl.
- Y Clerc i gysylltu a busnesai lleol i'w hysbysu o'r apêl ac o geisio cyfraniadau

**244. I gymeradwyo taliadau ychwanegol i Gadeirydd y Cyngor o £100 ac yna £50 yr un i Gadeiryddion Pwyllgor Cyllid, Hamdden a'r Fynwent.**

Adroddwyd fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi ei gwneud yn fandadol i'r Cyngor dalu costau o £150 bob blwyddyn i bob aelod ac fod hyn eisoes wedi ei gyllidebu amdano. Fodd bynnag mae gan y Cyngor yr hawl i dalu swm o hyd at £500 y flwyddyn ar gyfer Cadeirydd y Cyngor a Cadeiryddion Pwyllgorau.

**Penderfynwyd:**

I dalu'r taliadau ychwanegol i'r canlynol: -

Cadeirydd y Cyngor £100
Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent £50
Cadeirydd Pwyllgor Cyllid £50
Cadeirydd pwyllgor Hamdden £50

Y rhain yw talu yn ystod mis Mawrth 2019.

**245. Grit - bocsys melyn ar gyfer gaeaf 2018.**

Adroddwyd gan y clerc ar drefniadau llenwi bocsys halen a weithredwyd gan y Cyngor Cymuned yn ystod gaeaf 2017 / 2018**.** Nodwyd gan y clerc mai'r drefn oedd pan oedd angen llenwi bocs melyn, ar ôl derbyn cais gan y cyhoeddodd ei fod yn derbyn galwad ac yna yn e-bostio'r cais i Gyngor Gwynedd. Yn anffodus dyna oedd diwedd y mater o ran y Cyngor Cymuned ac ni fyddai'r Cyngor yn cael cadarnhad pa bryd fyddai'r bocs yn cal ei lenwi, os ydi wedi cael ei lenwi na pa bryd y cafodd ei lenwi. Roedd yr ansicrwydd yma a diffyg llenwi bocs yn achosi i'r clerc dderbyn galwadau gan bobl yn holi pa bryd fyddai'r bocs yn cael ei lenwi ac yn cwyno am nad oedd wedi ei lenwi. Cwestiynau nad oedd yn bosib i'r Cyngor Cymuned ei ateb. Ar gyfer gaeaf 2018 / 2019 argymhellwyd y dylai'r Cyngor Cymuned gymryd drosodd t broses i gyd drwy fod yn gyfrifol am bwrcasu grit, cael rhywun fynd i lenwi'r bocsys ac felly yn golygu fod rheolaeth lawn gennym o'r broses. Yn ogystal, dylid ystyried cyd weithio gyda Cynghorau Cymuned cyfagos fel y gellir elwa o fanteision economaidd maint.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i edrych fewn i'r posibilrwydd o gymryd drosodd y gwaith ein hunain ac i gysylltu a Chynghorau cyfagos yn holi am gydweithio i ddarparu'r gwasanaeth.

**246. Ceisiadau Cynllunio**

a) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0680/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Ty'n Winllan, Lon Groes, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554AF

**Dyddiad Cofrestru:** 30-Gorff-2018

**Math o Gais:** Llawn – Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Estyniad a newidiadau

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfyniad** : Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0628/23/LL

**Rhif Cyfeirnod Porth Cynllunio:**

**Lleoliad y Safle:** Ysgubor Fawr, Tyddyn Cae, Pontrug, Caernarfon, Gwynedd, LL552SW

**Dyddiad Cofrestru:** 16-Gorff-2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Porth newydd

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Cefnogi’r cais.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:40

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: